# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Ionawr 9fed 2022

**Presennol**

Cyng. S.Roberts, Gavin Jones, C.Dixon, G.Edwards,G.Hughes,D.Morris a P.Jenkins

**<u>Ymddiheuriadau:</u>**

Dim

**Cofnodion Tachwedd 2021.**

Cynnigodd D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng G.Jones

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Mr Dylan Williams **CNC**- Yn dilyn ymweliad Mr Williams â'r cyngor y mis Hydref mae Mr Williams a'i gydweithiwr Mrs Maysmor bellach wedi dechrau dosbarthu'r wybodaeth megis rhestrau cyswllt, prosiectau datblygu a gwaith coedwigaeth y mae'r cyngor yn teimlo fydd yn helpu aelodau gyda'u dyletswyddau.

**Grid gwartheg Ty'n y Groes**- mae'r gwaith ar y grid gwartheg wedi dod i ben yn llwyddianus, mae'r cyngor am ddiolch aelodau Cyngor Gwynedd am ei gwaith.

**Diffibriliwr**- mae'r cyngor wedi ariannu ail ddiffibriliwr yn yr ardal. Mae'r ail ddiffibriliwr wedi ei leoli yn Dolfrwynnog Newydd,Hermon.

Er mwyn hysbysebu lleoliad y diffibrilwyr bydd y clerc yn gosod erthygl yn y papur lleol - Llygad y Dydd.

Bydd y cyngor yn cynnig talu cost trydan i berchennog y tŷ yn Dolfrwynnog Newydd.

**Biniau ardal Dolfrwynnog.** Mae pob cartref wedi cael eu biniau sbwriel eu hunain ac mae'r bin cymunedol wedi'i dynnu ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio eto.

**Biniau halen.**

Mae’r cyngor weri derbyn llythyr (15/12/21) gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y byddant yn darparu halen i’r biniau pwrpasol yn y gymuned yn ddi-dal.

**Cynghorydd Sir.**

Dywed y Cynghorydd Jenkins y bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd o 8.5% yn eu cyllideb flynyddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23 gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn llunio eu cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Bydd priffyrdd Gwynedd yn ffurfio gweithgorau cymunedol i ymdrin â phroblemau lleol sy'n gysylltiedig â'u hadran. Megis dechrau y mae ffurfio'r grŵp a hyd yma nid yw eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau llawn yn hysbys. Gall Cynghorwyr ragweld y bydd Cyngor Gwynedd yn cysylltu â nhw ar y pwnc hwn ac felly bydd angen cael rhestr o faterion posibl yn barod i ymdrin â nhw.

Bydd Clerc yn diweddaru'r rhestr wrth i awgrymiadau ddod i law.

Darparodd Cynghorydd Jenkins ddiweddariad ar strategaeth tai cyngor Gwynedd yn wyneb y cynnydd yn y tâl cymunedol a osodwyd ar ail gartrefi.

Hyd yma mae'r cyngor wedi codi tua £8m mewn trethi ychwanegol a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i wella tai ar draws Gwynedd.

**Materion ariannol.**

Cyllid misol Tachwedd a Rhagfyr 2021.

**Cyson Banc: Tachwedd 2021**

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: | £6587.24 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Partneriaeth toiled | £250.00 |

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru aelodaeth | £31.00 |
| Llwybrau Cyhoeddus | £1080.00 |
| Yn y banc diwedd mis | £5126.24. |

**Cyson Banc: Rhagfyr 2021**

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: | £5126.24 |

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Diffibrilydd | £1447.44 |

| | |
|---|---|
| Yn y banc diwedd mis | £3578.80 |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

**Praesept 2022-23**

**<u>Cais praesept 2022-23.</u>**

| | |
|---|---|
| Yn y banc 01/12/2021 | £5126.24 |
| Llai sieciau heb glirio | £1477.44 |
| Cyfanswm | £3648.80 |

Incwm arfaethedig am y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| Precept | |
| Ad-daliad cynnal llwybrau | £577 |
| Ad daliad TAW | £550 |

Cyfanswm (heb preasept) £4775.80

Taliadau 2022/23

| | |
|---|---|
| Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £1150 |
| Llogi'r Neuadd | £225 |
| Cyflog Clerc | £1200 |
| Ysiwriant | £450 |
| Rhoddion | £600 |
| Toiled Ganllwyd | £275 |
| Archwilydd/cyfrifydd | £625 |
| Etholiad Mai 2022 | £250 |
| (Eitemau amrywiol) | £950 |

Cyfanswm £5225

Balans £6225.00

Gweddill (heb praesept) -£1449.20

Ar ôl ystyried y ffigurau gwariant arfaethedig a chyllideb flynyddol bosibl ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, cytunodd y cyngor ar gais am swm o £3000.

**Awdit mewnol 2021-22.**

Mae’r clerc wedi cysylltu a adran Cyllid Cyngor Gwynedd i drefnu awdit mewnol am y flwyddyn ariannol 2021-22.

**Ad-daliad cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Mae’r cyngor cymuned wedi derbyn £577.10 gan Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r costau a gafwyd ynghylch yr uchod.

**Llythyrau & E.bost**

Dim

**Unrhyw fater arall.**

Cyng Dixon yn codi pryderon am bobl sydd yn defnyddio’r Bothy yn ardal Tynbenthros.  Mae yna achosion o ddifrod a ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd yn creu pryderon i bobl lleol.

Mae’r cyngor am gysylltu gyda CNC er mwyn datrus y problemau.